**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Amanda Blakeman
Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl Amanda,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi'n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:

1. Canfyddiadau arolygon: Nododd adroddiad HMICFRS ddiffygion yn y modd y mae'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd wedi ymdrin ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys asesiadau risg annigonol, oedi wrth ymateb, a'r defnydd o iaith sy'n beio'r dioddefwr. A yw heddluoedd Cymru wedi cynnal adolygiad o'u harferion eu hunain? Yn benodol, a yw'r heddluoedd wedi rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau'r adroddiad hwn wrth werthuso a gwella eu ffordd o ymateb i achosion o blant a phobl ifanc goll a chamfanteisio'n droseddol ar blant?

2. **Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth:** Sut mae swyddogion heddlu rheng flaen yn cael eu hyfforddi i nodi ac ymateb i arwyddion o gamfanteisio'n droseddol ar blant? A oes unrhyw raglenni neu fentrau penodol ar waith i godi ymwybyddiaeth swyddogion am y mater hwn?

3. **Cydweithio a Chydlynu**: Sut mae pedwar heddlu Cymru yn cydweithio â'i gilydd ac asiantaethau eraill, megis Timau Troseddau Ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol, yn eu hymdrechion i atal ac ymateb i gamfanteisio'n droseddol ar blant? Sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y gwahanol sefydliadau hyn?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.